GIG CYMRU NHS WALES | Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) Health Education and Improvement Wales (HEIW)

# Ystyriwch yrfa mewn Deintyddiaeth

## Mae amrywiaeth o rolau i'w harchwilio

### Deintyddion

Maent yn gallu cyflawni pob agwedd ar ddeintyddiaeth arferol gan gynnwys triniaeth fwy cymhleth fel triniaeth camlas y gwreiddyn a gosod capiau (coronau) ar ddannedd.

### Hylenyddion deintyddol

Mae'r rhain yn canolbwyntio ar atal pydredd dannedd a chlefyd y deintgig trwy ddefnyddio meddyginiaeth cryfhau fflworid a glanhau dannedd (digennu a llathru).

### Therapyddion deintyddol

Cynnal deintyddiaeth arferol fel llenwadau, glanhau dannedd a gwynnu dannedd.

### Nyrsys deintyddol

Maent yn gweithio gyda'r deintydd, therapydd neu hylenydd i sicrhau bod yr offer cywir a glân ar gael a gwneud cleifion yn gyfforddus yn ystod eu triniaeth.

### Technegwyr deintyddol

Maent yn fedrus wrth adeiladu amrywiaeth o offer deintyddol pwrpasol megis dannedd ffug a chapiau i'w gosod ar ddannedd gan y deintydd.

### Technegwyr deintyddol clinigol

Maent yn gallu gwneud holl waith cymhleth technegydd deintyddol mewn labordy deintyddol ond hefyd yn gweithio'n uniongyrchol gyda chleifion i wneud rhai mathau o ddannedd ffug.

### Mae nifer o wahanol leoedd y gallech chi weithio ynddynt:

**Labordy:**
Fel technegydd deintyddol clinigol neu dechnegydd deintyddol efallai y byddwch yn gweithio'n bennaf mewn labordy deintyddol yn gwneud dyfeisiau neu offer i fynd yng nghegau cleifion.

**Ysbyty:**
Gall pob gweithiwr deintyddol proffesiynol weithio mewn ysbyty. Gallant drin cleifion â chyflyrau cymhleth fel canser y pen a'r gwddf neu gallant weithio mewn labordy deintyddol mewn ysbyty.

**Practis Deintyddol:**
Gall deintyddion, therapyddion deintyddol, hylenyddion deintyddol a nyrsys deintyddol weithio mewn practis deintyddol cyffredinol yn trin cleifion ar gyfer triniaethau deintyddol arferol.

Yn 2020, roedd 43,054 o ddeintyddion cofrestredig a 70,906 o weithwyr gofal deintyddol proffesiynol cofrestredig yn y DU. Mae gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn aelodau o'r tîm deintyddol nad ydynt yn ddeintyddion, megis therapyddion deintyddol, hylenyddion, nyrsys, technegwyr clinigol a thechnegwyr. Mae gweithwyr gofal deintyddol proffesiynol yn rhan bwysig o'r gweithlu a'r tîm deintyddol.